# EWCH CHI BYTH AR GOLL ETO!

**Diolch i gyfathrebu trwy loeren fydd dim rhaid i chi stopio i ofyn y ffordd i neb byth eto – mae teclyn gwych ar gael i'ch helpu.**

**Ffeithiau sylfaenol.**
Yn swyddogol, eu henwau ydy '*satellite navigation systems*' sydd wedi ei dalfyrru i '*sat navs*'. Gallant ddarganfod eu lleoliad o fewn 20 metr trwy wrando ar signalau radio o loerennau. Mae eu pris yn dibynnu llawer ar ble'r rydych chi eisiau iddynt ei fapio.

**Ble'r ydych chi'n mynd?**
Os ydych yn mynd dramor neu i Iwerddon yn aml, gwnewch yn siwr bod yr ardaloedd hyn wedi eu cynnwys. Gellwch uwchraddio'r mapiau dros y we.

**Sut i'w paratoi**

1. Mewngofnodwch enw eich stryd neu rywle cyfagos. (Peidiwch ag enwi eich tŷ) .
2. Dewiswch naill ai y ffordd gyflymaf neu'r byrraf (yn dibynnu ai cyflymder ynteu arbed tanwydd ydy eich blaenoriaeth).

**I ffwrdd â chi!**
Gosodwch y teclyn yn rhywle ble gellwch ei weld yn hawdd heb iddo eich rhwystro chi rhag gweld trwy sgrîn y car!
Gosodwch y daith trwy bwyso 'i ble?' neu 'cael cyfarwyddiadau' a byddwch yn eu cael mewn eiliadau.
Efallai y bydd yn cymryd amser i chi ddygymod â'r llais sy'n rhoi cyfarwyddiadau i chi. Os bydd yn mynd ar eich nerfau go iawn gellwch lawrlwytho llais rhywun enwog fel Sean Connery!

## Pa un gaf i?

### TomTom Start 20





Mae gan yr uned sgrîn glir, golau a llais gweddol ddynol a daw gyda nodweddion dyfeisgar fel cywiro camgymeriadau ar y map ac osgoi tagfeydd traffig.
£120+ (Prydain ac Iwerddon) o ganghennau Halfords( 0845 057 000; www.halfords.com) neu o www.tomtom.com

### Garmin Nuvi 2200




Mae'n sat nav sylfaenol hawdd i'w ddefnyddio. Mae ganddo lais fel cyfrifiadur. Gall ddewis taith sy'n defnyddio llai o danwydd.
£ 84 o ganghennau o John Lewis. (0845 604 9049; www.johnlewis.com) neu www.amazon.co.uk

### Satmap Active 10




Y sat nav ar gyfer cerddwyr, beicwyr a llongwyr gyda mapiau Ordnans llawn. Batris AA . Gwrthsefyll dŵr. Wedi ei gynllunio i'w ddefnyddio pan fyddwch yn gwisgo menyg.
£ 300 o www.satmap.co.uk neu ganghennau o Argos (0845 640 3030; www.argos.co.uk)

### ECCO GPS Keychain



Gellwch ddod o hyd i'ch ffordd yn ôl i'ch gwesty neu eich car trwy ei fewngofnodi yn y teclyn hwn. Mae'n cadw llygad ar ble'r ydych yn mynd ac yn eich arwain yn ôl i ble cychwynnoch chi!
£42 o www.firebox.com